Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llannon

**Llannon**
**Aberystwyth**
**Ceredigion**
**SY23 5HX**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Llannon

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llannon |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 43 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 33 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | * |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 26.4% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | * |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 45.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 08/04/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/06/2024 |
| Mae'r pennaeth dros dro wedi bod yn ei swydd ers mis Ebrill 2024. | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae’r term ‘anghenion addysg arbennig’ yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol

## Trosolwg

Mae Ysgol Llannon yn gymuned ofalgar, gynhwysol a hapus. Mae'r ysgol yn rhan annatod o'u chymuned leol ac mae disgyblion yn ymfalchïo yn y profiadau dysgu amrywiol maent yn eu derbyn. Mae disgyblion yn garedig ac yn ystyriol o'i gilydd, sy'n cyfrannu at yr awyrgylch teuluol. Mae staff yn gwrando'n ofalus ar ddisgyblion os oes ganddynt bryderon gan feithrin ymdeimlad o barch a chwrteisi at eraill. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn cyd-chwarae'n llwyddiannus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau llythrennedd a rhifedd o'u mannau cychwyn. Er hyn, nid yw'r athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon systematig ar gyfer darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau hyd eithaf eu gallu. Mae gan staff berthynas waith arbennig â'r disgyblion. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu.

Mae athrawon yn creu amgylchedd dysgu effeithiol ac yn darparu gweithgareddau diddorol i ymgysylltu â diddordeb disgyblion. Mae staff yn cynllunio cyfleoedd addas i ddisgyblion ddysgu yn yr ardaloedd tu allan. Er hynny, nid yw'r ddarpariaeth yn rhoi cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am beth i ddysgu a sut i gyflwyno eu gwaith.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i waith yr ysgol, ac mae ganddynt ddealltwriaeth addas o' r cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro yn deall cryfderau'r ysgol ac wedi gosod gweithdrefnau pwrpasol ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd i'w datblygu. Mae wedi cydweithio â disgyblion, staff, llywodraethwyr a rhieni er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r blaenoriaethau gwella ac ymateb i'w hargymhellion yn amserol.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd hyd eithaf eu gallu

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu annibynnol

A3 Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith

## Beth sy'n digwydd nesaf

**Ddim mewn gweithgarwch dilynol**
Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd priodol o'u mannau cychwyn.

Mae medrau gwrando llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ar oedolion a'u cyfoedion ac yn dilyn cyfarwyddiadau'n effeithiol. Mae medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Maent yn sgwrsio'n eithaf hyderus wrth drin a thrafod eu gwaith gyda'u cyfoedion. Maent yn cyfathrebu'n barchus ag eraill ac yn gwerthfawrogi eu syniadau a'u barnau. Er hyn, mae disgyblion yn tueddu i siarad â'i gilydd trwy gyfrwng y Saesneg wrth ymgymryd â'u profiadau dysgu ac wrth gymdeithasu.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen dros amser. Ar y cyfan, maent yn dangos brwdfrydedd at ddarllen ac yn mwynhau trin a thrafod testunau amrywiol. Erbyn iddynt gyrraedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen ystod o destunau yn gynyddol gywir. Maent yn gwneud defnydd addas o atalnodi wrth ddarllen ar goedd er mwyn cyfleu ystyr. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen ystod o destunau ffeithiol yn briodol, er enghraifft wrth ddarllen gwefannau amrywiol i ddarganfod ffeithiau am anifeiliaid. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn trafod cynnwys llyfrau yn gynyddol hyderus gan egluro pa awduron sy'n apelio atynt ac yn eu denu i fwynhau darllen.

Mae medrau ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu medrau ysgrifennu cynnar yn briodol ac yn arbrofi wrth greu marciau, er enghraifft wrth greu rhestr siopa ac archebion yn y siop flodau. Erbyn Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu brawddegau syml gan ddefnyddio ansoddeiriau a dyfynodau'n briodol wrth ysgrifennu stori greadigol. Erbyn Blwyddyn 4, mae llawer o ddisgyblion yn dangos gafael cadarn ar batrymau sillafu cyfarwydd, ac yn defnyddio ffurf orchmynnol y ferf yn gywir wrth ysgrifennu rysáit cacen siocled. Ar frig yr ysgol, mae llawer yn ysgrifennu'n fwyfwy estynedig gan wneud dewisiadau addas o eirfa i ennyn diddordeb y darllenydd.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau rhif yn briodol ar draws yr ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau adnabod rhifau, ac yn defnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau gwahanol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu ystod dda o fedrau mathemateg ac yn gwneud cynnydd cadarn, er enghraifft wrth drafod nodweddion siapiau 2D a 3D. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, maent yn adeiladu ar eu medrau yn fuddiol; er enghraifft, mae llawer ym Mlwyddyn 4 yn defnyddio eu medrau rhif wrth luosi a rhannu gyda 10 a 100. Erbyn Blwyddyn 6, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhif i gymharu ffracsiynau, degolion a chanrannau yn addas. Er bod cynnydd medrau disgyblion yn briodol erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, nid yw eu dealltwriaeth fathemategol na'u medrau rhifedd yn adeiladu'n systematig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth flaenorol. O ganlyniad, nid yw lleiafrif y disgyblion yn datblygu eu medrau yn ddigon da.

Mae medrau digidol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio teclynnau yn hyderus ac yn creu animeiddiad o stori Blodeuwedd yn llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn creu graff bloc o siapiau 3D amrywiol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn defnyddio'r we i ymchwilio'n annibynnol er mwyn dod o hyd i wybodaeth ar amrywiaeth o destunau. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol yn hyderus drwy ddatrys problemau a modelu gan ddefnyddio rhaglenni amrywiol. Er hynny, dim ond ychydig o ddisgyblion sy'n datblygu dealltwriaeth effeithiol o sut i drin data neu greu taenlenni yn annibynnol.

Mae medrau creadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn canu'n hyderus gydag ymwybyddiaeth gadarn o draw a thôn. Mae hyder a chreadigrwydd bron bob disgybl yn datblygu'n gadarn drwy gydweithio â cherddorion lleol i gyfansoddi a pherfformio cân arbennig ar gyfer Ysgol Llannon. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarn at weithgareddau corfforol. Maent yn mwynhau'r sesiynau addysg gorfforol ac yn ymroi'n bwrpasol i ddatblygu eu medrau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn hapus o fewn amgylchedd croesawgar a chynhwysol yr ysgol. Maent yn mwynhau dod i'r ysgol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghyfradd presenoldeb uchel y disgyblion, gan gynnwys y disgyblion hynny ag ADY a disgyblion y mae tlodi ac anfantais yn cael effaith andwyol arnynt. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda wrth iddynt ryngweithio yn y dosbarth ac yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn dangos parch at ei gilydd, oedolion ac ymwelwyr.

Mae perthnasoedd gwaith cynnes a phwrpasol rhwng oedolion a disgyblion yn sicrhau bod disgyblion yn gwybod at bwy i droi am gymorth neu gefnogaeth. Mae balchder y rhan fwyaf o ddisgyblion tuag at eu hysgol yn amlwg. Maent yn mwynhau'r ysgol ac yn ei disgrifio fel lle hapus a chyfeillgar, gan roi statws a bri i'r rheolau aur sydd ganddynt ar waith. Mae'r disgyblion hynaf yn datblygu i fod yn ddisgyblion aeddfed a chyfrifol sy'n ofalgar iawn o'r disgyblion ieuengaf. Daw hyn i'r amlwg yn ystod amseroedd egwyl wrth i'r llysgenhadon efydd arwain gweithgareddau corfforol amrywiol ar gyfer y disgyblion ieuengaf. Mae bron bob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn ffyddiog bod staff yn ymateb yn brydlon i'w pryderon. O ganlyniad, mae'r ymdeimlad o fod yn aelod o un teulu mawr yn treiddio trwy fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth dda o sut i gadw'n iach, gan gynnwys pwysigrwydd ymarfer corff a chynnal diet cytbwys. Maent yn dod â ffrwyth a dŵr i'r ysgol yn ddyddiol i'w gael amser byrbryd. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau corfforol, gan gynnwys sesiynau chwaraeon wythnosol a chystadlaethau amrywiol fel criced a thenis. Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein. Maent yn creu posteri gwybodaeth i'w harddangos o gwmpas yr ysgol ac yn dangos ymwybyddiaeth aeddfed o'r angen i gadw eu cyfrineiriau'n ddiogel.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o bwysigrwydd cydraddoldeb a pharchu pobl eraill. Maent yn deall eu hawliau, gan gynnwys yr hawl i gael eu trin yn deg. Trwy ddysgu am hanes enwogion fel Betty Campbell a Nelson

Mandela, maent yn datblygu empathi a dealltwriaeth aeddfed o brofiadau pobl fu'n ddigon dewr i wneud safiad dros eu hegwyddorion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n unigolion moesol trwy eu gwaith yn y gymuned leol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfrannu'n briodol i'w dysgu trwy gynnig syniadau ar beth yr hoffent ei ddysgu yn y themâu tymhorol. Mae hyn yn eu helpu i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain. Mae'r disgyblion hynaf yn ymgymryd â rolau arwain yn frwdfrydig, gan gymryd eu cyfrifoldebau o ddifri. Er enghraifft, mae'r criw Cymraeg a'r cyngor ysgol yn falch o'u cyfraniad wrth annog siopau lleol i roi tocynnau llwyddiant i'r disgyblion am siarad Cymraeg tu allan i furiau'r ysgol.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a medrus sy'n barod iawn i ddysgu. Maent yn dangos brwdfrydedd at eu tasgau ac yn awyddus iawn i lwyddo. Wrth wynebu profiadau dysgu newydd, maent yn dangos dyfalbarhad a chwilfrydedd ac yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd, er enghraifft wrth greu cân yn seiliedig ar olygfa o chwedl Blodeuwedd. Er hyn, nid yw'r disgyblion bob amser yn cael digon o gyfleoedd pwrpasol i ddewis eu dysgu a sut i gyflwyno'u gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymateb i adborth gan oedolion yn effeithlon. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn trafod eu gwaith yn addas ac yn dechrau deall gofynion y tasgau yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion adnabod y camau nesaf yn eu dysgu a chael cyfleoedd i wella eu gwaith.

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir ar gyfer y cwricwlwm ac mae athrawon yn dechrau addasu eu cynlluniau gwaith yn bwrpasol gan gwmpasu'r meysydd dysgu a phrofiad yn effeithiol. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus â disgyblion, rhieni, llywodraethwyr a'r gymuned leol i ffurfio gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm a'i pherthnasu i fywydau'r disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio ystod o weithgareddau dysgu difyr sy'n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb bron bob un yn llwyddiannus. Mae'r profiadau dysgu'n galluogi llawer o ddisgyblion i gaffael medrau amrywiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n  darparu cyfleoedd bwriadus i'r disgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn gyson ac adeiladol wrth symud drwy'r ysgol.

Mae athrawon yn ehangu cyfleoedd dysgu yn dda trwy ddefnyddio ymweliadau â'r ardal leol, cydweithio ag asiantaethau allanol a gwahodd ymwelwyr i'r ysgol, gan gynnwys cerddor enwog a gŵr busnes lleol. Mae'r profiadau dysgu hyn yn ysbrydoli disgyblion ac yn codi eu dyheadau am yrfaoedd yn y dyfodol a'r byd gwaith, gan eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli ymysg staff yr ysgol, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu hapus a chynhwysol i ddisgyblion. Mae'r staff yn darparu lefelau uchel o ofal bugeiliol ar gyfer y disgyblion. Maent yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn sensitif ac yn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion yr holl ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn effeithiol. Mae pob aelod o staff yn modelu iaith yn gyson dda ac yn annog y disgyblion i ailadrodd

patrymau brawddeg yn rheolaidd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion.

Mae’r staff yn darparu amgylchedd ddysgu ddiddorol a lliwgar sy’n rhoi cyfle i bob disgybl ddysgu’n gynhyrchiol. Mae egwyddorion y dysgu sylfaen yn datblygu’n effeithiol ac mae amrediad o brofiadau buddiol yn cael eu cynnig i ddisgyblion yn yr ardaloedd dysgu a chwarae tu mewn. Er enghraifft, mae disgyblion yn ymarfer eu medrau modur manwl wrth siapio toes i greu creaduriaid y môr ac adeiladu tŵr ar gyfer Louigi Lemon. Ar adegau, mae staff yn gwneud defnydd priodol o’r ardaloedd allanol sydd ar dir yr ysgol fel adnodd i atgyfnerthu profiadau dysgu.

Ar ddechrau pob tymor, mae staff yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar gyfeiriad y themâu trwy eu hannog i ofyn cwestiynau yr hoffent gael ateb iddynt trwy’r profiadau dysgu. Ar adegau, maent yn cael dewis y modd mwyaf priodol o gyflwyno eu gwaith. Er hyn, yn gyffredinol, mae staff yn dueddol o or-arwain y dysgu ar draws yr ysgol, sydd yn ei dro yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau a datblygu medrau dysgu annibynnol.

Mae’r staff yn holi’n dreiddgar er mwyn adeiladu ar wybodaeth flaenorol a datblygu medrau meddwl y disgyblion. Maent yn sicrhau cyflwyniadau a diweddglo diddorol sy’n ennyn brwdfrydedd a chynnal diddordeb disgyblion yn effeithiol. Mae athrawon yn cynnig adborth cyson i ddisgyblion am eu gwaith ac, o ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o’r hyn y maent wedi ei wneud yn dda. Er hyn, ar y cyfan, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ymateb i adborth a gwneud gwelliannau i’w gwaith.

Mae athrawon a chymorthyddion yn olrhain cynnydd disgyblion yn briodol. Maent yn defnyddio’r wybodaeth am ddatblygiad y disgyblion yn bwrpasol i ymateb yn brydlon i’w hanghenion a’u cefnogi’n amserol. Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn rhannu gwybodaeth ddefnyddiol yn ymwneud â lles, cynnydd a safonau disgyblion.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned gynhwysol a chartrefol. Mae staff yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi, a pharch yn briodol. Mae ymdeimlad ac ethos gofalgar tuag at bob disgybl. Mae’r staff yn creu amgylchedd dysgu eithriadol o gynnes a diogel lle mae'r disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae’r staff yn adnabod y disgyblion, eu cefndiroedd, a’r gymuned leol yn dda iawn. Maent yn ymateb â sensitifrwydd i’w hanghenion emosiynol a chymdeithasol drwy drawstoriad o weithgareddau pwrpasol.

Mae gan yr ysgol brosesau addas ar waith sy’n cael effaith gadarnhaol ar gefnogi disgyblion ag ADY. Mae’r Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY) yn cyflawni ei rôl yn dda ac yn cefnogi’r athrawon yn effeithiol i greu darpariaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion, er enghraifft drwy ddarparu hyfforddiant ar amgylchedd dysgu cynhwysol.

Mae’r CADY yn cydweithio’n effeithiol â’r staff i adnabod a chlustnodi disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol. Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae’r CADY yn cydweithio’n effeithiol ag amrywiaeth o asiantaethau allanol er mwyn cael arweiniad

a chyngor arbenigol i gefnogi'r disgyblion sydd wedi eu clustnodi i dderbyn cefnogaeth ychwanegol. Er enghraifft, mae hi wedi trefnu hyfforddiant penodol i'r cymorthyddion ar ddarparu rhaglenni cefnogaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion.

Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda â rhieni a gofalwyr ynglŷn â threfniadau ADY, gyda disgyblion yn rhan annatod o'r broses. Mae'r ysgol yn ystyried barn a theimladau'r plentyn, y rhieni a gofalwyr yn llawn fel rhan o'r trefniadau gwerthfawr. Mae staff yn gweithio'n agos â theuluoedd ac asiantaethau allanol i greu cynlluniau cymorth effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Caiff y cymorth hwn, ynghyd â chyfathrebu'n rheolaidd â rhieni, effaith gadarnhaol ar eu cynnydd a'u lles.

Mae staff yn olrhain a monitro cynnydd drwy drafodaethau parhaus a chofnodi cynnydd ar gynlluniau unigol disgyblion. Er hyn, nid oes gan yr ysgol system benodol i olrhain cynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae staff yn hybu pwysigrwydd bwyta'n iach ac annog ffitrwydd corfforol drwy amrediad o weithgareddau addysg gorfforol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau wythnosol gan hyfforddwr chwaraeon a hyfforddiant y llysgenhadon efydd i drefnu gweithgareddau pwrpasol yn ystod amseroedd egwyl. Mae'r meysydd chwarae eang a'r defnydd o ardaloedd chwarae'r pentref yn caniatáu staff i drefnu ystod o weithgareddau awyr agored. Mae'r gweithgareddau'n cyfrannu'n dda at les a mwynhad disgyblion mewn gweithgareddau addysg gorfforol.

Mae staff yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion leisio barn er mwyn cyfrannu at eu dysgu ac at fywyd yr ysgol drwy waith diwyd y cynghorau amrywiol. Mae hyn yn cyfoethogi eu profiadau ac yn eu paratoi'n dda i gymryd cyfrifoldeb dros eu penderfyniadau ac i ystyried safbwyntiau eraill. Serch hynny, nid yw cyfrifoldebau'r cynghorau wedi eu dosrannu'n deg ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid ydy pob disgybl yn gallu rhannu ei farn ac mae effaith gwaith y cynghorau ar benderfyniadau ysgol gyfan yn gyfyngedig.

Mae staff yn hyrwyddo agweddau ysbrydol a moesol y disgyblion yn rheolaidd drwy wasanaethau addoli ar y cyd. Mae gwasanaethau cyson yn cynnig cyfleoedd da i ddisgyblion gymryd rhan weithredol ynddynt. Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar faterion cyfoes a gwahanol grefyddau a diwylliannau mewn gweithgareddau dosbarth yn briodol. Mae staff yn helpu bron bob disgybl i ddeall materion yn ymwneud â gwerthoedd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant drwy weithgareddau bwriadus, er enghraifft drwy ddathlu diwrnod empathi ar draws yr ysgol.

Mae disgyblion yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu medrau mynegiannol ac arddel diwylliant a hanes Cymru yn effeithiol, er enghraifft drwy greu modelau clai o arwyr Cymreig yn ardal y goedwig a thrafod chwedl Blodeuwedd fel rhan o'u dysgu. Er hyn, nid yw'r staff yn hyrwyddo balchder y disgyblion i siarad Cymraeg yn rheolaidd gyda'u cyfoedion.

Mae staff yn hyrwyddo diwylliant o ddiogelwch yn briodol ac nid yw'r trefniadau'n peri pryder. Mae'r drefn o ran adrodd am bryderon diogelu am ddisgyblion yn addas ac mae staff yn cydweithio ag asiantaethau allanol, pan fo hynny'n briodol. Mae gan yr ysgol brosesau priodol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar greu amgylchedd dysgu hapus a gofalgar er mwyn cynnig sylfaen gadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau sylfaenol. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus â chymuned yr ysgol, gan gynnwys trigolion y pentref, i greu gweledigaeth gytûn. Mae hyn yn seiliedig ar greadigrwydd, annibyniaeth a gwytnwch. Mae hyn yn sail i logo newydd yr ysgol. O ganlyniad, mae ymdeimlad cryf o ymddiriedaeth, balchder a pharch yn bodoli rhwng disgyblion a staff sy'n treiddio'n naturiol ar draws cymuned glòs yr ysgol.

Mewn cyfnod byr, mae gan y pennaeth dros dro ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol ac mae wedi dechrau gosod gweithdrefnau pwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella. Ers ei phenodiad, mae wedi caffael barn rhieni am gryfderau'r ysgol ac wedi ymateb yn llwyddiannus i argymhellion y rhieni am feysydd i'w gwella. Enghraifft nodedig o hyn yw sut mae'r pennaeth wedi gwneud gwelliannau amserol i gyfathrebu'n  rheolaidd â rhieni a chynnal cyfarfodydd tymhorol i drafod cynnydd y disgyblion. Mae perthynas yr ysgol â'r rhieni yn gryfder ac mae'r cydweithio a'r cyfathrebu parhaus yn hybu'r ysgol yn ei chymuned yn hynod effeithiol.

Mae trefniadau i gefnogi, datblygu a dosbarthu arweinyddiaeth ar draws yr ysgol yn datblygu'n briodol. O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth dros dro wedi sefydlu tîm effeithiol o staff drwy ddosbarthu rolau a chyfrifoldebau yn addas. Maent yn gwbl glir am eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn ymroi'n llwyr i werthoedd yr ysgol, gan hybu diwylliant o gydweithio effeithiol rhwng yr holl aelodau staff. O ganlyniad, mae llawer o staff yn awyddus i ddatblygu'r ddarpariaeth i wella profiadau, cynnydd a medrau'r disgyblion, er enghraifft drwy fynychu hyfforddiant ar wahaniaethu effeithiol. Pan gânt gyfleoedd, mae arweinwyr yn cydweithio â rhwydweithiau'r sir a'r gymuned leol yn effeithiol. Enghraifft o hyn yw sut mae'r arweinydd digidol a'r dewiniaid digidol wedi cydweithio â'r cartref henoed lleol i ddatblygu medrau digidol y preswylwyr yn llwyddiannus. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gysylltiadau â'r gymuned leol, datblygu medrau dysgu gydol oes y disgyblion ac addysgu'r preswylwyr sut i siopa am fwyd ar lein ac i chwarae gemau i hybu eu lles.

Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer rheoli adnoddau, sy'n cynnwys rhai ariannol. Mae arweinwyr yn gwario'r gyllideb yn ddarbodus ac mae'r corff llywodraethol yn ei monitro, gan gynnwys y defnydd o'r grant datblygu disgyblion, yn effeithiol. Maent yn rhagweithiol drwy godi proffil yr ysgol yn y gymuned leol, er enghraifft drwy benodi staff i redeg clwb cyn ysgol. Mae hyn yn cefnogi twf yr ysgol dros amser yn ogystal â cheisio lleihau effaith tlodi ar gyflawniad disgyblion.  Mae aelodau'r corff llywodraethol yn hybu diwylliant diogelu lle mae disgyblion a staff yn teimlo'n ddiogel, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r corff llywodraethol yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae llywodraethwyr yn hynod gefnogol i'r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o brif gryfderau'r ysgol a rhai o'r meysydd i'w gwella, yn unol â blaenoriaethau'r cynllun gwella. Fodd bynnag, nid yw aelodau'r corff yn cymryd rhan lawn yn y broses hunanwerthuso er mwyn monitro effaith y ddarpariaeth ar gynnydd a chyflawniad y disgyblion yn ddigon trylwyr.

Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi creu diwylliant ac ethos cynhyrchiol i hybu a chefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Maent yn cynnal cyfleoedd cyfoethog iddynt

gymryd rhan mewn ystod dda o hyfforddiant sy’n ymateb i’w gofynion unigol a blaenoriaethau’r ysgol yn gadarn. Er enghraifft, mae cymorthyddion wedi cael hyfforddiant digidol a hyfforddiant penodol i’w cefnogi i ddarparu rhaglenni cefnogaeth sy’n cael effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles disgyblion.

## Sail dystiolaeth  yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/08/2024